# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 14 Mawrth 2017

Amser: 08.30 - 09.06

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Paul Davies AC<br>Jane Hutt AC<br>David J Rowlands AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion o'r cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Rhoddodd Arweinydd y Tŷ wybod i'r Rheolwyr Busnes nad oedd y Prif Weinidog yn gallu bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn heddiw oherwydd mater personol, ac felly y byddai hi'n ateb Cwestiynau'r Prif Weinidog yn ei le.

Byddai'r Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth yn cael ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i symud y ddadl ar Gynnig Deddfwriaethol Aelod o 29 Mawrth i 5 Ebrill fel y gall y Rheolwyr Busnes ddewis cynnig unwaith y bydd canlyniad y bleidlais ar gyfer Biliau Aelodau (a fydd yn digwydd ar 28 Mawrth), yn hysbys.

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 22 Mawrth 2017 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar y goblygiadau i Gymru o adael yr Undeb Ewropeaidd (60 munud)
- ~~Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)~~ – *symudwyd i 29 Mawrth*

**Dydd Mercher 29 Mawrth 2017 -**

- ~~Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)~~ - *symudwyd i 5 Ebrill*
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- ~~Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)~~ - *symudwyd i 5 Ebrill*

**Dydd Mercher 5 Ebrill 2017 -**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ar Benodiadau Gweinidogol: Gwrandawiadau Cyn Penodi gan Bwyllgorau'r Cynulliad (30 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

### 3.4 Dadl Aelod Unigol: Dewis Cynnig

Dewisodd y Pwyllgor Busnes ddau gynnig i'w trafod: y cyntaf ar 22 Mawrth, yr ail ar 5 Ebrill.

**Dydd Mercher 22 Mawrth 2017 -**

- **NNDM6259**
  **Jeremy Miles (Castell-nedd)**
  **Lee Waters (Llanelli)**
  **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
  **Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)**
  **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**
  **Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**
  Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

  1. Yn nodi bod Cymru yn elwa ar arfordir hir a'r ail gyrhaeddiad llanw uchaf yn y byd.

2. Yn nodi ymhellach fod gweithgarwch economaidd yn gysylltiedig â'r môr eisoes yn werth tua £2.1 biliwn yng Nghymru, ac yn cynnal degau o filoedd o swyddi.

3. Yn credu y bydd ymrwymiad strategol i'r economi las yn galluogi Cymru i droi ein moroedd yn un o'n hasedion economaidd mwyaf.

4. Yn credu ymhellach y gall Cymru fod yn arweinydd ym maes ynni adnewyddadwy morol, twristiaeth a chwaraeon, pysgota, bwyd a dyframaethu, a gweithgynhyrchu a pheirianneg morol.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno Cynllun Morol uchelgeisiol i gefnogi datblygiad cynaliadwy yr economi las, a'i gwneud yn elfen ganolog o'i strategaeth economaidd newydd.

**Dydd Mercher 5 Ebrill 2017 –**

- **NNDM6260**
  **Lee Waters (Llanelli)**
  **Jeremy Miles (Castell-nedd)**
  **Hefin David (Caerffili)**
  **Vikki Howells (Cwm Cynon)**
  **David Melding (Canol De Cymru)**

  Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

  1. Yn nodi bod yr hyn a elwir yn 'bedwerydd chwyldro diwydiannol' yn cynnig heriau a chyfleoedd i economi Cymru.

  2. Yn nodi bod risg i tua 700,000 o swyddi yng Nghymru dros y ddau ddegawd nesaf o ganlyniad i awtomatiaeth.

  3. Yn credu bod gan Gymru arbenigedd eisoes sy'n rhoi mantais gystadleuol mewn diwydiannau twf sy'n dod i'r amlwg.

4. Yn cydnabod bod angen inni, er mwyn manteisio ar y diwydiannau newydd hyn, ganolbwyntio ar ddulliau cyflym, hyblyg sy'n addasu'n rhwydd i amgylchiadau sydd wedi newid.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailedrych ar Strategaeth Arloesi Cymru gyda'r bwriad o sicrhau ei bod yn adlewyrchu maint a chwmpas yr amhariad rydym yn ei wynebu, ac yn ymrwymo i adolygiad strategol o gyfleoedd mewn sectorau newydd twf uchel, lle mae gan Gymru'r potensial i sicrhau ei bod yn dominyddu'r farchnad yn gynnar fel rhan o'i gwaith ar ddatblygu strategaeth economaidd newydd.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Carchardai a Llysoedd:

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Carchardai a Llysoedd.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at bedwar pwyllgor er mwyn iddynt graffu arno; y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon; y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai’r Pwyllgorau gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol erbyn dydd Iau 4 Mai er mwyn i’r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 9 Mai 2017.

## 5 Defnyddio amser yn y Cyfarfod Llawn

### 5.1 Cwestiynau Amserol

Trafododd y Rheolwyr Busnes gynigion diwygiedig ar gyfer cyflwyno Cwestiynau Amserol a diwygio'r meini prawf ar gyfer Cwestiynau Brys.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar y cynigion yn y papur ac i'r Ysgrifenyddiaeth gyflwyno adroddiad drafft i'r Pwyllgor Busnes gytuno arno a'i roi gerbron y Cynulliad. Cytunwyd na fyddai unrhyw ddyraniad amser ar gyfer Cwestiynau Amserol yn cael ei gynnwys yn

y Rheolau Sefydlog fel bod gan y Rheolwyr Busnes hyblygrwydd i newid yr amseru os oes angen yn nes ymlaen.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i adolygu'r drefn newydd yn nhymor yr hydref, gan gynnwys faint o amser a ddyrennir a phryd y cawsant eu trefnu.

## Unrhyw fater arall

Gofynnodd Paul Davies am eglurhad ar sefyllfa Neil McEvoy o fewn grŵp Plaid Cymru a pha effaith y byddai hyn yn ei chael ar feintiau grwpiau'r wrthblaid, gan gynnwys dyrannu lleoedd pwyllgor. Dywedodd y Llywydd y byddai'n gwerthfawrogi pe gallai'r sefyllfa gael ei gwneud yn eglur cyn gynted â phosibl.